

Meddwl Beirniadol



Mae meddwl beirniadol yn fwriadol. Mae'n ymwneud â chael agwedd ystyriol a gallu meddwl am ffyrdd gwahanol o ddeall yr wybodaeth o'ch blaen.

Mae meddwl beirniadol hefyd yn cynnwys proses o werthuso honiadau a dadleuon er mwyn dod i gasgliad rhesymegol a chyson, gan asesu'r casgliadau hyn yn erbyn meini prawf neu safonau clir a pherthnasol, a gallu egluro'r rhesymau y tu ôl i'r farn (Turney 2014).

BETH YDYW ?

Mae sgiliau craidd fel chwilfrydedd proffesiynol, barn broffesiynol, a'r gallu i gynnal asesiadau manwl a dod i gasgliad yn hanfodol i gynllunio diogel.

Mae'n rhaid i ymarferwyr feddu ar ddealltwriaeth o rwystrau a heriau gwaith diogelu a defnyddio strategaethau i reoli'r rhain, gan gynnwys sefyllfaoedd gelyniaethus a chydymffurfiaeth ffug, ac i herio eu harferion eu hunain ac arferion eraill, ar lefel unigol ac asiantaeth.

Mae meddylwyr beirniadol yn:

- agored i wybodaeth newydd ac yn ceisio ystyried hypothesis amgen
- ymwybodol y gall straen a barn eraill wyrdroi'r meddw
- gallu ystyried gwybodaeth o amryw o ffynonellau, hyd yn oed rhai sy'n gwrthdaro
- hunanymwybodol, hunanfyfyriol, gwrandawyr da ac yn dangos empathi

Cydnabyddiaeth: Mae'n bwysig bod ymarferwyr yn fodlon ac yn gallu cydnabod bod rhai penderfyniadau a wnaethpwyd yn anghywir – er eu bod yn rhesymol ar y pryd. Mae'r camgymeriadau hyn yn rhan anochel o'r arfer ac mae eu cydnabod yn elfen bwysig o arfer da (Munro, 1996).

Materion Allweddol: Nid yw consensws wastad yn beth da ac nid yw'r ffaith bod pawb yn gytûn yn golygu eu bod yn gywir – ac yn sicr nid yw hynny'n cadw plentyn yn ddiogel. Nid mwyaf y nifer, mwyaf diogel yw hi – nid yw risg yn lleihau pan fo mwy o bobl yn cytuno â'i gilydd.

Mae barn y lleiafrif yn bwysig ac mae'n rhaid ei hystyried a'i nodi o fewn gwaith aml-asiantaeth. Meddylwch am y profiadau gwahanol sydd gan bob gweithiwr.

Sut I ymateb:

- Ar gyfer beth mae'r asesiad?
- Beth yw'r stori?
- Beth mae'r stori yn ei olygu?
- Beth sydd angen digwydd?
- Sut ydym yn gwybod os ydym yn gwneud cynnydd?

Gweithredu: Mae datblygu'r arferion sydd eu hangen i gefnogi meddwl beirniadol yn cymryd llawer o ymdrech. Dylech drin eich ymateb cyntaf i sefyllfa, mater neu berson fel un dros dro. Ceisiwch osgoi'r cymhelliad i farnu yn seiliedig ar eich ymateb cychwynnol.

Ydych chi wedi arsylwi'n ofalus?

Archwiliwch eich ymateb(ion). Ceisiwch ddeall pam y bu i chi ymateb yn y ffordd honno. Pa ragdybiaethau oeddech chi'n eu gwneud? Pa brofiadau blaenorol sydd wedi cyfrannu o bosibl at eich ymateb?